

Mark Drakeford AC
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru

25 Mawrth 2019

Annwyl Mark

Craffu ar deddfwriaeth yn ymwneud â Brexit

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Mawrth 2019.

Nid wyf am ymestyn yr ohebiaeth hon yn ddiangen ond mae nifer o egwyddorion pwysig yr hoffem dynnu sylw atynt a chredwn ei bod yn bosibl eich bod wedi camddeall rhai o'r sylwadau yn ein hadroddiad.

Mater i'r Pwyllgor yw penderfynu sut y mae'n dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae swyddogaethau'r Pwyllgor wedi'u nodi yn Rheol Sefydlog 21 ac maent yn cynnwys ystyried unrhyw faterion deddfwriaethol cyffredinol eu natur sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru, a pharatoi adroddiadau arnynt.

Nid yw Gweinidogion y DU yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol na'i bwyllgorau; o ganlyniad, unwaith y bydd Gweinidogion Cymru wedi cydsynio i Weinidogion y DU wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig, nid oes gan y Pwyllgor rôl ffurfiol na dylanwad uniongyrchol yn y broses o graffu ar y rheoliadau hynny, yn wahanol i reoliadau a gaiff eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. At hyn, prin yw'r cyfleoedd i geisio dylanwadu'n anuniongyrchol, o ystyried materion amseriad yn y deddfwrfeydd gwahanol a'r pwyllgorau niferus sy'n gyfrifol am graffu ar reoliadau yn Nhŷ Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi.



Felly, ystyriwn mai un o swyddogaethau cyfreithlon y Pwyllgor yw craffu ar y rhesymau sy'n sail i benderfyniad Llywodraeth Cymru i gydsynio i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig. Er mwyn ymgymryd â'r dasg honno, ystyriwn ei bod yn briodol cyfeirio at y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n cwmpasu'r broses gydsynio.

Yn yr Alban, lle mae Gweinidogion yr Alban hefyd yn cydsynio i Lywodraeth y DU weithredu mewn meysydd datganoledig, mae'r broses yn wahanol ac, o dan rai amgylchiadau penodol, mae gan Senedd yr Alban ran yn y broses gydsynio.

O ran eich sylwadau ar broses y Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol, fel y nodwyd yn ein hadroddiad, rydym yn pryderu am faterion o egwyddor gyfansoddiadol. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at y Llywydd ynglŷn â'r mater hwn.

Yn olaf, nodwn eich bod yn dweud bod ein hadroddiad yn awgrymu nad ydym ni, yn wahanol i Lywodraeth Cymru, yn pryderu na fydd gennym lyfr statud gweithredol ar 30 Mawrth 2019 os byddwn yn gadael yr UE heb gytundeb. Mae hwn yn sylw anffodus ac, o ystyried ein swyddogaeth graffu, mae'n amlwg nad dyna'r achos. Fel y nodais yn fy llythyr atoch ar 21 Chwefror 2019: ein cyfrifoldeb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yw cyflawni ein swyddogaethau'n ddiwyd, craffu ar ddeddfwriaeth ac, yn unol â hynny, dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif yn briodol am yr hyn y mae'n ei wneud.

Yn gywir



Mick Antoniw

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English

